Mythau am Arferion Ar-lein Plant 13 ac 14 Oed yng Nghymru

o Adroddiad Cenhedlaeth 2000 am Arferion Cyfryngau Digidol a'r Rhyngrwyd a Llythrennedd Digidol Plant 13 ac 14 oed yng Nghymru

(I'w lawrlwytho, trowch at www.wisekids.org.uk **)**

1. Mae pob plentyn 13 ac 14 oed yn defnyddio ffôn clyfar/llechen.
   Nac oes, mae 20% o blant naill ai fyth wedi defnyddio ffôn clyfar, neu maent yn defnyddio un yn llai aml nag unwaith yr wythnos; mae 26% o blant fyth wedi defnyddio llechen, neu maent yn defnyddio un yn llai aml nag unwaith yr wythnos.

2. Mae plant o ysgolion sy'n cynnwys lefelau Prydau Ysgol am Ddim (FSM) uwch, dan anfantais o ran eu mynediad at ddyfeisiau er mwyn mynd ar-lein.
   Na, nid oes gwahaniaeth.

3. Mae plant o ysgolion sy'n cynnwys lefelau FSM uwch yn llai tebygol o gyflawni amrediad o weithgareddau ar-lein.
   Mewn gwirionedd, mae ychydig yn fwy o blant o ysgolion sy'n cynnwys lefelau FSM uwch yn cyflawni amrediad o weithgareddau ar-lein.

4. Mae pob plentyn yn chwarae gemau ar-lein.
   Nac oes, nid oes 1 o bob 3 yn chwarae gemau ar-lein.

5. Mae defnyddio 'gosodiadau preifatrwydd' ar rwydweithiau cymdeithasol yn golygu eich bod yn breifat.
   Nid yw hyn yn wir. Mewn un cwestiwn, mae 71% o blant yn adrodd eu bod yn defnyddio gosodiadau preifatrwydd. Fodd bynnag, pan ofynnir cwestiwn mwy manwl am eu diweddariadau statws ar rwydweithiau cymdeithasol, dywedodd 42% y byddai eu diweddariadau yn breifat, a dywedodd 50% bod eu diweddariadau yn gymysgedd o ddeunydd cyhoeddus a phreifat y maent yn ei bostio.

6. Mae rhieni sy'n cadw golwg ar weithgarwch negeseua cymdeithasol eu plant a'u gweithgarwch ar rwydweithiau cymdeithasol, yn cadw golwg ar eu gweithgarwch ar draws yr holl blatfformau.
   Nid yw hyn yn wir. Mae mwy o blant yn adrodd bod eu rhieni yn cadw golwg ar eu Facebook na'u gweithgarwch ar blatfformau cymdeithasol eraill.

7. Mae'r rhan fwyaf o rieni yn monitro gweithgarwch ar-lein eu plant.
   Yn ôl eu plant, nid yw hyn yn wir – mae'r rhan fwyaf o blant yn dweud bod eu rhieni yn dibynnu ar ymddiriedaeth.

8. Byddai plant yn dymuno rhyngweithio gyda'u hathrawon ar sianelau cyfryngau cymdeithasol.
   Efallai nad yw hyn yn wir o reidrwydd. Mae cryn dipyn yn dibynnu ar y ffordd y caiff hyn ei gyflawni. Mae plant yn gwerthfawrogi eu preifatrwydd ac yn ystyried bod eu defnydd o gyfryngau cymdeithasol yn rhywbeth personol, ac nid ydynt yn dymuno cymysgu 'pethau ysgol' a 'phethau personol'.